

PRIFFYRDD, CYMRU

2012 RHIF 44

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (HIGHVIEW ROAD A CHICHESTER ROAD, PENARTH, BRO MORGANNWG) 2012

Gwnaed

24 Medi 2012

Yn dod i rym

1 Tachwedd 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Highview Road a Chichester Road, Penarth, Bro Morgannwg) 2012.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg;

ystyr "y datblygwr" (*"the developer"*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi iddo;

ystyr "Deddf 1990" (*"the 1990 Act"*) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Highview Road a Chichester Road, Penarth, Bro Morgannwg) 2012" sy'n mynd gyda'r Gorchymyn hwn;

(3) Bydd y Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

Cau Priffordd

2. Yn amodol ar erthyglau 3, 4 a 5, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhannau o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir gyda llinellau rhesog sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni fod angen cau priffordd er mwyn gallu datblygu yn unol â'r caniatâd cynllunio a

roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 20 Ebrill 2010 o dan gyfeirnod rhif 2007/00295/FUL ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Y Darpariaethau Angenrheidiol neu Hwylus cyn Cau'r Priffyrdd ac er mwyn Darparu neu Wella'r Priffyrdd

3. Ni chaniateir cau'r rhannau o'r briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos y modd y caeir y rhannau o'r briffordd;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 wedi dechrau, a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r rheidrwydd i gau'r priffyrdd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi cadarnhau'n ysgrifenedig fod paragraffau (a) ac (b) wedi eu bodloni.

Ymgymerywyr a Darparwyr Statudol

4. Pan fo gan ymgymerywyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhannau o briffordd (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerywyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran y cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Parhad y Gorchymyn hwn

5. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod parhad y caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Medi 2012

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p. 8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau ag yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac erbyn hyn Gweinidogion Cymru sy'n eu harfer yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

i Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir yn Highview Road ym Mhenarth, ym Mro Morgannwg, o'i chyffordd â Chichester Road tua'r gogledd-orllewin i ben y ffordd bengaead, y mae yn ei man hiraf yn 204.3 o fetrau, yn ei man lletaf yn 17.2 o fetrau ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 1466.4 o fetrau sgwâr, a ddangosir gan 'A' i 'B' ar y plan a adnewwyd.

ii. Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir yn Chichester Road ym Mhenarth, ym Mro Morgannwg, o gefn yr eiddo 18 Plassey Street, tua'r gogledd-orllewin i ben y ffordd bengaead, y mae yn ei man hiraf yn 184.6 o fetrau, yn ei man lletaf yn 11.3 o fetrau ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 1103.3 o fetrau sgwâr, a ddangosir gan 'C' i 'D' ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Dymchwel fflatiau presennol ac adeiladu 377 o unedau preswyl a seilwaith priffyrdd cysylltiedig a man agored yn Penarth Heights, oddi ar Harbour View Road, Penarth ym Mro Morgannwg.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (HIGHVIEW ROAD A CHICHESTER ROAD, PENARTH, BRO MORGANNWG) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

Awdurdodir cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i gael ei wneud. Bydd y

Gorchymyn Cau Priffyrdd (Highview Road a Chichester Road, Penarth, Bro Morgannwg) 2012 (“y Gorchymyn”) yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol Adran Briffyrdd Cyngor Bro Morgannwg, Cynllunio a Thrafnidiaeth, Swyddfeydd y Dociau, Dociau'r Barri, y Barri CF63 4RT neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os bydd unrhyw un yn dymuno amau dilysrwydd y Gorchymyn neu'r darpariaethau sydd ynddo, gallant wneud hynny ar y seiliau a ganlyn:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. y rhagfarnwyd yn sylweddol yn erbyn ei fuddiannau gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un neu rai o ofynion y Ddeddf,

O fewn 6 wythnos i 1 Hydref 2012, caiff person wneud cais i'r Uchel Lys atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd yn y Gorchymyn os yw sail a. neu b. wedi eu bodloni.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth Cymru', 'Gorchmynion Cau TCPA', '2012').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D Burnell

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

i Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir yn Highview Road ym Mhenarth, ym Mro Morgannwg,

o'i chyffordd â Chichester Road tua'r gogledd-orllewin i ben y ffordd bengaead, y mae yn ei man hiraf yn 204.3 o fetrau, yn ei man lletaf yn 17.2 o fetrau ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 1466.4 o fetrau sgwâr, a ddangosir gan 'A' i 'B' ar y plan a adnewwyd.

ii. Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir yn Chichester Road ym Mhenarth, ym Mro Morgannwg, o gefn yr eiddo 18 Plassey Street, tua'r gogledd-orllewin i ben y ffordd bengaead, y mae yn ei man hiraf yn 184.6 o fetrau, yn ei man lletaf yn 11.3 o fetrau ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 1103.3 o fetrau sgwâr, a ddangosir gan 'C' i 'D' ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Dymchwel fflatiau presennol ac adeiladu 377 o unedau preswyl a seilwaith priffyrdd cysylltiedig a man agored yn Penarth Heights, oddi ar Harbour View Road, Penarth ym Mro Morgannwg, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Bro Morgannwg o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 20 Ebrill 2010 o dan y cyfeirnod 2007/00295/FUL.